LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# YDYCH CHI EISIAU GWELLA IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU?

## Ymunwch â ni i ddweud eich dweud

### Pam dod yn aelod Llais?

- clywed am **ein holl weithgareddau'n** uniongyrchol
- gwneud **gwahaniaeth cadarnhaol**
- dylanwadu ar **eich** gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol
- annog eraill i **rannu** eu barn
- cymerwch gymaint o **ran** ag y dymunwch
- **mae'n rhad ac am ddim**



## Eisiau bod yn rhan o **sefydliad** sydd â phwrpas ac angerdd?


Llais yw'r **corff cenedlaethol, annibynnol** a sefydlwyd i roi llais i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Y cyfle

Os ydych chi'n poeni am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell, mae dod yn aelod Llais yn ffordd hawdd a chyfleus o gymryd rhan.

Rydym am glywed gan gynifer o bobl â phosibl. Fel aelod, byddwch yn cael gwybod am yr holl gyfleoedd i ddweud eich dweud am y pethau sy'n bwysig i chi.





## Beth mae bod yn aelod yn ei olygu

**Byddwch yn:**

- derbyn ein cylchlythyr rheolaidd yn eich diweddaru ar ein gwaith cyfredol
- cysylltu â chi am unrhyw ymgynghoriadau sy'n rhedeg er mwyn i chi allu rhoi eich barn
- gallu dylanwadu ar ein blaenoriaethau gwaith yn y dyfodol
- gallu rhannu eich profiadau da a drwg
- helpu ni i roi gwybod i fwy o bobl am Llais a sut y gallant helpu i wella gwasanaethau

**Does dim ymrwymiad amser ac mae'n rhad ac am ddim i ymuno â ni. Rydyn ni eisiau eich llais chi.**



## Bod yn rhan o rywbeth pwysig

Rydyn ni yma i sicrhau bod barn a phrofiadau pobl yn helpu i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well i bawb.

I gael gwybod mwy am Llais a sut y gallwch chi gymryd rhan mewn gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda ni, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i **www.llaiscymru.org**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch hefyd ei lawrlwytho o'n gwefan neu gysylltu â ni i ofyn am gopi.

# EICH TÎM LLAIS LLEOL

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Ffôn:** 029 2375 0112

**E-bost:** cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

**Cwm Taf Morgannwg**
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**Ffôn:** 01443 405830

**E-bost:** cwmtafmorgannwg enquiries@llaiscymru.org

**Gwent**
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

**Ffôn:** 01633 838516

**E-bost:** gwentenquiries@llaiscymru.org

**Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe**
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

**Ffôn:** 01639 683490

**E-bost:** nptandswansea enquiries@llaiscymru.org

**Gogledd Cymru**
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

**Ffôn:** 01978 356178 / 01248 679284

**E-bost:** northwalesenquiries@llaiscymru.org

**Powys**
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed.

**Ffôn:** 01874 624206 / 01686 627632

**E-bost:** powysenquiries@llaiscymru.org

**Gorllewin Cymru**
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**Ffôn:** 01646 697610

**E-bost:** westwalesenquiries@llaiscymru.org

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

© Llais 2023
47256

YMDDIRIEDAETH • CYNWYSOLDEB • ANNIBYNIAETH